Rhan 1

Cyflwyniad i'r pecyn

Diolch Sam

GwaithleuenctidCymru

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Rhan 1

Cyflwyniad i'r pecyn

1.1 Pwrpas

Pwrpas y pecyn hwn yw galluogi gweithwyr ieuenctid, athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr eraill i hyrwyddo gwaith ieuenctid fel gyrfa i bobl ifanc.

Mae'r pecyn i gael ei ddefnyddio gyda phobl ifanc 13 oed a hŷn mewn ystod o amgylcheddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a chynaledig, er mwyn codi ymwybyddiaeth o Waith Ieuenctid fel profiad gwerthfawr iddynt hwy ac i'w cymunedau.

O ganlyniad, y gobaith yw y bydd pobl ifanc am gymryd rhan, neu gymryd cyfrifoldeb am waith mewn amgylcheddau gwaith ieuenctid. Y nod yn y pen draw yw y bydd pobl ifanc yn gweld posibilrwydd gyrfa mewn gwaith ieuenctid, boed wirfoddol neu statudol, am dâl neu heb dâl, ac y byddant yn penderfynu dilyn y llwybr hwn ar sail gwybodaeth.

Bwriad y llyfryn atodol i bobl ifanc **'Allech chi fod y Sam nesaf?'** yw hysbysu pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr am Waith Ieuenctid, a'u cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau pellach.

Olwynion Sir y Fflint i... (FW2)
Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint

"Diolch Sam
Mae FW2 wedi fy ngwneud yn fwy annibynnol. Rydw i'n gallu gweithio dros benwythnosau ac rydw i wedi bod yn mynd i ddosbarthiadau nos hefyd."

1.2 Nod

Nod y pecyn yw cynnig adnoddau addas i rai sy'n gweithio gyda phobl ifanc i'w galluogi i godi ymwybyddiaeth o'r materion o bwys a rhoi gwybodaeth a chymorth ychwanegol iddynt.

Gwneir hyn trwy'r canlynol:

i. Darparu sesiwn rhyngweithiol sy'n para am tua 45 munud sy'n addas ar gyfer:
   - Pobl ifanc sy'n gwybod dim am Waith Ieuenctid (Cynllun 1)
   - Pobl ifanc sydd â pheth profiad o Waith Ieuenctid a gwirfoddoli (Cynllun 2)
   - Pobl ifanc sydd wedi mwynhau gwirfoddoli ac a allai ystyried gwaith ieuenctid fel gyrfa wedi iddynt gael ychydig mwy o wybodaeth ac anogaeth (Cynllun 3)

ii. Darparu gwybodaeth a chymorth i bobl ifanc am eu hopsiynau , ei dewisiadau a ble y gallant gael rhagor o wybodaeth

iii. Y llyfryn '**Allech chi fod y Sam nesaf?**' i ategu neges y sesiwn a chyfeirio pobl ifanc at ffynonellau gwybodaeth eraill y gallant eu hymchwilio a'u dangos i'w teuluoedd.

"Diolch Sam Roedden ni'n trafod pethau nad oeddwn wedi meddwl amdanyn nhw o'r blaen. Nid oedd unrhyw un wedi trafod pethau felly o'r blaen gyda fi."

Cariad a Pherthnasoedd
Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion

Cynhadledd Ieuenctid y Methodistiaid
Synod Cymru o'r Eglwys
Fethodistaidd, Cymru

1.3 Rhesymeg

'Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid rôl wirioneddol i'w chwarae... trwy gynnig i bobl ifanc y mathau o gyfleoedd sy'n eu cymell i weithredu mewn modd cadarnhaol ac sy'n eu harwain i ddatblygu ystod eang o sgiliau a gwella eu dealltwriaeth emosiynol'
(Strategaeth Genedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid 2007)

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Cymru'n cynnwys mudiadau'r sector gwirfoddol a chynaledig. Mae'r gwaith ieuenctid yn cael ei gyflawni mewn tri phrif faes:

- Gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol;
- mewn prif fudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol;
- mewn prosiectau lleol y trydydd sector.

Fel pennir gan y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru (Atodiad 1) sy'n gofyn bod gwaith ieuenctid yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n: Addysgiadol, Mynegiannol, Cyfranogol a Galluogol gyda ffocws ar gynhwysiant a mynediad cyfartal.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnig cyfle i weithwyr cyflogedig a gwirfoddol wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl ifanc unigol ac i fywyd cymunedau.

Gall fod prinder gwybodaeth am y Gwasanaeth Ieuenctid a sut mae'n cefnogi pobl ifanc, trwy lencyndod i oedran. Yn syml, mae llawer mwy i'r peth na chwarae pŵl a thennis bwrdd. Mae mentora, hyfforddi, cyfeillachu, hysbysu, cymell a thiwtora ymhlith roliau amrywiol Gweithiwr/wraig Ieuenctid. Mae angen mwy o Weithwyr Ieuenctid sgilgar a hyfforddedig yn y sector cyfnewidiol hwn sy'n datblygu o hyd.

Mae'r pecyn hwn yn rhan o ddull strategol ehangach o godi proffil gwaith ieuenctid yn y Gwasanaeth Ieuenctid a chynyddu nifer y staff cyflogedig a gwirfoddol yn y maes.

1.4 Termau Gwaith Ieuenctid a Gwirfoddoli

Am ei bod yn bosibl y bydd y pecyn hwn yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill mae'n bwysig bod yn glir ynghylch y termau Gwaith Ieuenctid a Gwirfoddoli.

Gwaith ieuenctid yw'r fethodoleg a'r gweithgareddau a wneir mewn partneriaeth â phobl ifanc sy'n cydymffurfio â gwerthoedd ac egwyddorion y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru (Atodiad 1), ac sy'n digwydd yn y Gwasanaeth Ieuenctid.

'Noson Oscar' Gwobrau Ffilmiau Ieuenctid Sir Benfro'
Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfr

Diffinnir y term **gwirfoddoli** fel y'i \disgrifir yn Adroddiad Comisiwn s Russell Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu a Chysylltiadau Ieuenctid (2005) ac mae'n dynodi:

'...y ffyrdd amrywiol a chyfoethog i bobl ifanc gyfrannu at eu cymunedau ar lefel leol a chenedlaethola rhyngwladol. Rydym wedi mabwysiadu hefyd y diffiniad bras o wirfoddoli a ddefnyddir gan y Cenhedloedd Unedig, sy'n cwmpasu holl rychwant gweithgareddau gwirfoddol a sut maent yn cael eu trefnu, gan gwmpasu syniadau cyfranogi a dinasyddiaeth weithredol.'

Mae gwirfoddoli, fel y'i diffinnir yma, felly, yn cwmpasu holl weithgareddau'r Gwasanaeth Ieuenctid lle mae pobl ifanc yn bartneriaid gweithredol ac yn gwneud penderfyniadau am yr hyn y maent yn ei wneud a sut mae ei gyflawni.

"Diolch Sam
Mae popeth wedi bod yn wych.
Rydw i wedi hoffi popeth rydyn ni wedi'i wneud.
Mae'n grêt gwneud gwahanol bethau."

Prosiect Allgymorth Mochdr
Gwasanaeth Ieuenctid Conwy,
Mochdre, Conwy

1.5 Canlyniadau defnyddio'r pecyn

Canlyniadau defnyddio'r pecyn i bobl ifanc yw:

- Meithrin gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o wir ystyr gwaith ieuenctid
- Annog gwirfoddoli trwy dynnu sylw at y cyfleoedd yng nghyd-destun gwaith ieuenctid
- Ystyried gwaith ieuenctid fel gyrfa ddichonadwy
- Defnyddio'r llyfryn '**Allech chi fod y Sam nesaf?**' ar gyfer gwybodaeth a gweithredu pellach
- Ateb ymholiadau a chwestiynau a chyfeirio pobl ifanc trwy ddefnyddio'r taflenni a'r adnoddau i bobl ifanc

Rhan 1

Rhaglen yr Haf
Gwasanaeth Ieuenctid Dinas a Sir Abertawe

1.6 Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae'r pecyn ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid, athrawon, ymgynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr eraill sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc ac o redeg gweithgareddau cyfranogol. Mae'r adnodd ychwanegol **'Allech chi fod y Sam nesaf?'** i bobl ifanc a'u teuluoedd.

1.7 Natur y pecyn

Bwriedir i'r pecyn fod yn syml, ac yn gyfranogol iawn, gan adlewyrchu methodoleg gwaith ieuenctid lle mae gweithgareddau'n cael eu cymell gan y person ifanc gyda chymorth arweinwyr o oedolion. Mae ymchwil helaeth mewn amryw amgylcheddau gyda phobl ifanc a Gweithwyr Ieuenctid wedi pennu natur y pecyn hwn trwy gynnig darnau dysgu hygyrch a hylaw, ynghyd â chyfeiriadau at wybodaeth bellach.

Gellir atgynhyrchu'r holl ddeunydd heb golli ei effaith a'i effeithiolrwydd. Mae cynlluniau'r sesiynau'n syml ac yn hyblyg i ateb anghenion y cyd-destun a'r bobl ifanc, dan gyfyngiadau amser, lleoliad a'r cyfleusterau sydd ar gael. Er enghraifft, mewn Digi-lab gellid treulio mwy o amser yn ymchwilio ar y rhyngrwyd neu'n edrych ar safleoedd a argymhellir, ond mewn clwb ieuenctid gellid treulio mwy o amser ar gemau, cwisiau neu drafod.

1.8 Y cyd-destun Cymreig

Datblygwyd yr adnodd hwn yng Nghymru ac i Gymru. Mae'r wybodaeth sydd yn y pecyn hwn yn berthnasol i Gymru. Mae'r meysydd polisi'n wahanol yng ngweddill y DU, ac i raddau hefyd rai o'r cyfleoedd i wirfoddoli a derbyn hyfforddiant. Fodd bynnag, mae cymwysterau gwaith ieuenctid ar gael a gellir eu trosglwyddo a'u cydnabod ledled y DU ac Iwerddon. Mae Atodiad 3 yn cynnwys rhestr o'r prif fanylion cyswllt mewn rhannau eraill o'r DU.

"Diolch Sam
Mae'r bandiau'n dda, mae'r awyrgylch yn dda ac mae'n cadw pobl oddi ar y strydoedd!"

Prosiect Cornel Siarad
Conwy Youth Service, Colwyn Bay

1.9 Cynnwys y pecyn

Mae 3 adran yn y pecyn hwn ar ôl y cyflwyniad.

Mae **Rhan 2** yn cynnwys tri sesiwn rhyngweithiol mewn gweithdy i'w defnyddio gyda phobl ifanc. Mae'n cynnwys cymorth a gwybodaeth hefyd sy'n berthnasol o ran cynllunio a darparu sesiynau mewn amgylcheddau gwaith ieuenctid neu mewn ystafell ddosbarth, yn targedu gwahanol grwpiau o bobl ifanc, gan ddibynnu ar lefel eu cysylltiad â gwaith ieuenctid.

Mae **Rhan 3** yn cynnwys gwybodaeth gefndirol fwy manwl i weithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill, ac i bobl ifanc. Ceir gwybodaeth am wirfoddoli, am lwybrau hyfforddiant, achredu, gyrfaoedd, sefydliadau a all fod o help a gwybodaeth ychwanegol a all fod yn ddefnyddiol i berson ifanc sydd am benderfynu a ddylai wneud gwaith ieuenctid a pha yrfa i'w dilyn.

Mae **Rhan 4** yn cynnwys yr holl adnoddau a thaflenni ar gyfer y sesiynau gan gynnwys gweithgareddau torri'r garw ac ymarferion.

Mae'r daflen werthuso'n cynnwys adborth i'r tiwtor a'r sefydliad am effeithiolrwydd y sesiwn.

Mae'r ffurflen ddilyniant a'r camau nesaf a'r opsiynau o safbwynt oedran yn sesiwn 3 i fod i helpu'r hwylusydd i roi cymorth pellach i bobl ifanc sydd wedi mynegi diddordeb mewn gwybod rhagor am yrfa mewn gwaith ieuenctid.

Cynhwyswyd tystysgrif presenoldeb i bobl ifanc hefyd.

Mae'r **Atodiadau**'n cynnig fersiynau cryno o'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru, a'r Safonau Galwedigaethol Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol, enwau cyswllt defnyddiol a rhagor o wybodaeth am hyfforddiant, cyfraddau cyflog a sefydliadau sy'n hyfforddi ac yn datblygu'r gweithlu. Ceir gwybodaeth am ddyfarniadau i bobl ifanc a chyfeiriadau yn yr atodiadau hefyd.

Ategir y deunyddiau gan y llyfryn **'Allech chi fod y Sam nesaf?'**, y bydd y bobl ifanc yn ei gadw yn sgil y sesiwn.

Fforwm Ieuenctid Byddar Cymru
Cymdeithas y Byddar Cymru